RHIFYN
15
Gaeaf 2017

Cysylltiadau Gofal Plant

CYLCHLYTHYR AR GYFER DARPARWYR GOFAL PLANT

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o Cysylltiadau Gofal Plant, cylchlythyr ar gyfer darparwyr gofal plant yn Nhorfaen.

Byddem yn falch i gynnwys eich straeon a'ch cyflawniadau, felly anfonwch nhw at eich Swygddog Datblygu Gofal Plant, Aimee, Jo neu Danielle, os gwelwch yn dda.

Gallwch gysylltu â ni gyda sylwadau neu gwestiynau ar 10633 648114 / 648115 neu ar e-bost:

aimee.priest

@torfaen.gov.uk

joanna.forward

@torfaen.gov.uk

danielle.nicke

@Torfaen.gov.uk

Torfaen
Family Information Service
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Neges gan Wasanaeth Gwybodaeth Teulu Torfaen…

Fel y gwyddoch chi, efallai, rydym ar hyn o bryd ar ganol Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Hoffem fynegi'n diolch am eich am eich holl gefnogaeth wrth hyrwyddo'r Arolwg Rhieni a Gofalwyr ac am gymryd rhan yn ein Ymgynghoriad Darparwyr Gofal Plant. Mae'r ddau arolwg nawr wedi cau a bydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi gyda'r dadansoddiad ar ddiwedd Mawrth 2017. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant cysylltwch â Hannah Bedford ar 01633 647400 neu e-bostiwch fis@torfaen.gov.uk.

LLONGYFARCHIADAU YSGOL FEITHRIN PONTYPWL

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn falch o allu cyhoeddu eu bod wedi ennill gwobr cenedlaethol am ein darpariaeth fel Meithrinfa Cymraeg yn ardal Pontypwl. Cafodd Ysgol Feithrin Pontypwl enwebiad diweddar gan aelodau o'r cyhoedd ac mewn Seremoni Wobrwyo arbennig gan Mudiad Meithrin ar Ddydd Gwener, Hydref 21 yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth cyhoeddwyd ein bod wedi ennill wobr arbennig am weithio mewn partneriaeth yn y gymuned.

Sefydlwyd Ysgol Feithrin Pontypwl yn ol yn 1979 Dros y 35 mlynedd diwethaf mae'r grwp wedi bod yn rhan bwysig iawn o fywyd tref Pontypwl gan fwydo 2 ysgol gynradd Gymraeg y dref. Erbyn hyn mae'r disgyblion cyntaf un bellach yn rhieni eu hunain ac yn dod a'u plant atom.

Mae Ysgol Feithrin Pontypwl yn teimlo'n gryf fod angen i'r Cylch fod yn rhan o'r gymuned ac rydym yn gwneud ymdrech penodol i sicrhau cysylltiad a chydweithio gyda holl cyrff a sefydliadau yr ardal.

Dywedodd Helen Greenwood, Arewinydd yr Ysgol *Feithrin, "Rwyn hynod o falch o allu derbyn y wobr yma ar ran y plant , staff a rhieni yn Ysgol Feithrin Pontypwl. Diolch i Ena Morris ac Annie Taylor, 2 o rieni wnaeth sefydlu'r grŵp dros 35 mlynedd yn ôl am ddod gyda fi i Aberystwyth i ddathlu."*

Pwysig - Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS) Gofal Plant rhan dau

Bydd AGGCC yn anfon e-bost i bob darparwr gofal plant ynghylch ail ran y SASS, i adael iddynt wybod y bydd hyn yn digwydd ym mis Mai. Hwn fydd y cyfathrebu cyntaf i roi dyddiad ar gyfer pryd y bydd rhan dau'r SASS yn digwydd. Bydd SASS rhan dau yn cynnwys yr Adolygiad o Ansawdd Gofal a nifer o gwestiynau eraill, pob un ohonynt yn defnyddio AGGCC Ar-lein.

Os yw eich e-bost gydag AGGCC, byddwch yn derbyn e-bost ganddynt. Os na, byddwch yn derbyn copi caled drwy'r post.

Cyngor i ddarparwyr

Rhwng nawr a Mai, gall ddarparwyr ddechrau sicrhau bod ganddynt Ddatganiad o Bwrpas cyfoes.

Os oes eisoes gennych gyfrif AGGCC ar lein fe allwch fewngofnodi i sicrhau bod eich manylion cyswllt yn gywir. Gallwch hefyd weld rhan un y SASS a gyflwynwyd gennych.

Os nad ydych wedi cyflwyno'r SASS neu wedi'u cwblhau rhan un yn unig, bydd angen i chi ei gwblhau ar yr un pryd â rhan dau'r SASS, ym mis Mai. **Ni allwch wneud unrhyw beth ar lein nawr.** Ni fydd AGGCC yn medru derbyn rhan un SASS sy'n hwyr, cyn mis Mai.

Gwefan

Bydd AGGCC yn postio eitem newyddion ar eu gwefan a fydd yn dilyn yn agos i'r e-bost y bydd darparwyr yn ei dderbyn. Bydd y wefan yn cael ei diweddaru yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod yna wybodaeth berthnasol ar gael arni i ddarparwyr. Bydd y wefan yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf.

Help

Pan fydd rhan dau'r SASS yn mynd yn fyw ym mis Mai, bydd AGGCC yn darparu cymorth technegol, a bydd sefydliadau ymbarél unwaith eto yn darparu cefnogaeth i ddarparwyr, gan eich helpu i lenwi'r ffurflen ac yn eich annog i ddefnyddio AGGCC ar-lein.

Mae'r mwyafrif o ddarparwyr wedi cwblhau rhan un y SASS ar amser, ond i'r rheini sydd heb wneud, ysgrifennodd yr arolygiaeth atynt i roi gwybod iddynt y bydd dal angen iddynt gwblhau rhan un y SASS y gwanwyn hwn, ynghyd â rhan dau'r SASS.

Bydd AGGCC yn cyhoeddi canllawiau ar rhan dau y SASS ym mis Chwefror a bydd yn cysylltu â phob darparwr cyn i rhan dau y SASS fynd yn fyw i'w hatgoffa am y broses a pha gamau y mae angen iddynt eu cymryd i gyflawni eu gofynion cyfreithiol.

Mwy o wybodaeth

Bydd manylion llawn ar gael ar www.cssiw.org.uk/self-assessment a bydd yr arolygiaeth yn trydar y wybodaeth ddiweddaraf hefyd – dilynwch hwy ar Twitter @CSSIW neu @Arolygu_gofal i gael y newyddion diweddaraf

ISAFSWM CYFLOG CENEDLAETHOL A CHYFLOG BYW CENEDLAETHOL

Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) yw'r isafswm cyflog fesul awr y mae hawl gan y mwyafrif o weithwyr i'w dderbyn yn ôl y gyfraith. Bydd y gyfradd yn dibynnu ar oedran gweithiwr ac os ydynt yn brentis.

Cyflog Byw Cenedlaethol

Cyflwynwyd Cyflog Byw Cenedlaethol y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2016 ar gyfer pobl 25 oed a hŷn sy'n gweithio, ac ar hyn o bryd y tâl yw £7.20 yr awr. Ym mis Ebrill 2017, bydd y tâl yn mynd i fyny i £7.50. Mae'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol presennol ar gyfer y rheini sydd dan 25 oed dal i fod yn berthnasol. Bydd y gyfradd yn newid bob mis Ebrill. Y cyfraddau o 1 Ebrill 2017 fydd:

· £7.50 yr awr - 25 oed a hŷn

· £7.05 yr awr - 21-24 oed

· £5.60 yr awr - 18-20 oed

· £4.05 yr awr - 16-17 oed

£3.50 i brentisiais dan 19 neu 19 oed a hŷn sydd ym mlwyddyn gyntaf eu prentisiaeth: www.acas.org.uk/nmw

https://www.gov.uk/**national-minimum-wage**-rates

Lleoliadau newydd eu hagor

Mae Lauleighs (ynganu fel lolis), yn feithrinfa galw heibio sydd wedi ei lleoli yng Nghanol Cwmbrân. Llwyddodd Lauren a Lindsey i sefydlu eu Cwmni Buddiannau Cymunedol newydd gyda chymorth a chefnogaeth gan PaCE, menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru / Adran Gwaith a Phensiynau sy'n anelu at gefnogi rhieni sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith ond sy'n wynebu rhwystrau gofal plant. Mae Lauleighs hefyd yn darparu troliau siopa ceir i'w llogi, cynnal partïon plant, a sesiynau aros a chwarae.Mae Meithrinfa yn Eglwys y Drindod, Pontnewydd yn feithrinfa ddydd cyfrwng Cymraeg sydd newydd agor. Mae wedi'i lleoli mewn adeilad Eglwys sydd wedi cael ei adnewyddu. Mae'r feithrinfa yn lleoliad Dechrau'n Deg a lleoliad addysg nas cynhelir.

Meithrinfa dydd gyfrwng Gymraeg newydd ei agor yw'r ei sefydlu un adeilad eglwys wedi ei hadnewyd-du'n hardd. Mae'r Feithrinfa yn lleoliad dechrau'n Dey ag addysg nas cynhelir.